# Gêm Hufen Iâ

Gweithgaredd i esbonio ac annog gwneud penderfyniadau fel grŵp cyfan ac fel aelodau unigol yw hwn.

## Deunyddiau:

- Dim (Hufen iâ – dewisol)

## Sut:

Gofynnwch i bawb yn yr ystafell ddewis eu hoff fath o hufen iâ

Yna, rhaid iddynt ffurffio grwpiau yn ôl eu hoff flas.

Nawr ymddiheurwch i'r grŵp, ac esbonio bod yna ddigon o arian ar gyfer un sgŵp fawr rhwng dau yn unig. Gadewch iddyn nhw benderfynu mewn parau pa flas sydd orau ganddynt, ac adrodd yn ôl.

Nawr mae pethau yn mynd yn anoddach byth!

Esboniwch iddynt mai dim on yn blas gân nhw brynu i bawb , felly bydd angen i'r grŵp cyfan negydu, a chytuno ar yr un blas.

Nid oes modd gadael neb allan,  a rhaid i bawb gael hufen iâ o ryw fath.

Rhowch gyfle iddyn nhw drafod a dod i ddatrusiad.

## Pwyntiau trafod:

- A oedd pawb yn hapus â'r math o hufen iâ a gawson nhw yn y diwedd?
- Sut wnaed y penderfyniadau; cydsyniad ynteu'r mwyafrif?
- A wnaeth unrhyw un newid eu blas mwy nag unwaith i fodloni eraill? Sut gwnaeth hynny ichi deimlo?
- A oedd y blas terfynol yn ffefryn gan unrhyw un o'r cychwyn cyntaf? Sut gwnaeth hynny ichi deimlo?
- Sut gellid bod wedi mynd ati i benderfynu'n wahanol?
- A oeddech chi'n teimlo bod un person penodol yn rheoli sut gwnaed y penderfyniadau?
- A oeddech chi'n meddwl bod hyn yn deg ynteu'n annheg?

## Addasiadau

Mae modd chwarae'r gêm hon â blasau creision hefyd.  Gall yr athro cyswllt hepgor un blas ar ddiwedd pob 'rownd', fel bod rhaid i'r grwpiau ddewis blas arall, nes bod dim ond dau flas ar ôl.

Yna mae'r athro cyswllt yn esbonio i'r ddau grŵp sydd yn weddill mai dim ond un blas gân nhw, a bod rhaid i bawb gytuno ar hynny. Gallwch ddefnyddio hyn yn sail i drafodaeth:
a oedd yr athro cyswllt yn deg i ddewis hoff flas un grŵp yn hytrach na ffefryn y llall?